

Adroddiad Mandy Jones AC ar y Ddirprwyaeth i Israel a'r Lan Orllewinol

Dyma fy adroddiad ar y ddirprwyaeth drawsbleidiol o Aelodau Cynulliad a aeth i Israel a'r Lan Orllewinol rhwng 24 Chwefror a 28 Chwefror 2019.

Dyma fy nghyfle cyntaf i deithio dramor gyda'r Cynulliad a'r pellaf yr wyf wedi teithio erioed. Ni allwn golli'r cyfle hwn i gymryd rhan mewn seremoni i nodi treftadaeth Gristnogol a milwrol Cymru yn y Tir Sanctaidd. Fodd bynnag, rwy'n cyfaddef nad oes gennyf lawer o wybodaeth am y sefyllfa yn y rhanbarth hwn felly bachais ar y cyfle i ddysgu am Israel a'r Lan Orllewinol, gan gynnwys y broses heddwch, y diwylliant a'r hanes hir ac anodd.

Roedd yn fraint imi gael bod yn rhan o'r seremoni i goffáu treftadaeth Gristnogol a milwrol Cymru yn y Tir Sanctaidd.

Roedd yn wasanaeth emosiynol wrth imi feddwl am fy mab fy hun, milwr sy'n gwasanaethu, wrth inni gofio milwyr Cymru a orymdeithiodd drwy Jaffa Gate gyda'r Cadfridog Allenby ar ôl ildio'r ddinas gan yr Otomaniaid yn ystod ymgyrch yr Aifft a Phalesteina yn y Rhyfel Byd Cyntaf.

Dywedir fod Brigâd 160 y Milwyr Traed, y Cymry Brenhinol, a Chymdeithas Lluoedd Wrth Gefn a Chadetiaid Cymru i gyd wedi cyfrannu at gostau'r plac a roddwyd yn anrheg. Rwyf hefyd yn aelod o'r Grŵp Trawsbleidiol ar y Lluoedd Arfog a'r Cadetiaid, dan arweiniad Darren Millar AC, ac roeddwn yn falch o gyfarfod aelodau o'r Frigâd Gymreig yn ddiweddar.

Roedd y seremoni hon yn symbolaidd iawn o'r cyfeillgarwch a'r cysylltiad rhwng ein dwy wlad, a'r perthnasoedd hyn a ffurfiwyd drwy hanes a ffydd gyffredin yw'r union fath o berthnasoedd y byddwn yn gallu manteisio mwy arnynt ar ôl inni adael yr Undeb Ewropeaidd.

Nid wyf yn arbennig o grefyddol ond rwy'n parchu hawl pobl eraill i ddilyn eu ffydd fel y mynnant ac rwyf bob amser yn agored i ddysgu mwy trwy gwestiynau ac eglurhad. Gan fy mod yn dechrau o bwynt cymharol isel, gofynnais ddigon! Yr hyn a'm trawodd oedd, er ein bod filltiroedd oddi cartref, mewn hinsawdd wahanol a chyda rhai gwahaniaethau diwylliannol, bod y rhan fwyaf o bobl, mewn gwirionedd, o ble bynnag y dônt a beth bynnag yw eu crefydd, yn groesawgar, yn hael gyda'u hamser a'u sylw ac yn hynod falch o'u mamwlad.

Mae'n bosibl mai'r rhan fwyaf anodd o'r daith i mi oedd yr ymweliad â Yad Vashem, Canolfan Goffa Holocaust y Byd, i fynd ar daith o amgylch Amgueddfa Hanes yr Holocaust ac i gymryd rhan mewn Gweithred Goffa i ddiodefwyr yr Holocaust. Dyma'r tro cyntaf i mi ystyried o ddifrif erchyllterau gwrth-Semitiaeth yn ystod cyfnod y Natsïaid. Nid wyf erioed wedi bod eisiau ei wynebu o'r blaen. Mae'n fater o bryder mawr i mi bod pla'r gwrth-Semitiaeth hwn yn parhau i fod yn broblem fawr yn y ganrif hon.

Roedd gen i ddi-ddordeb arbennig yng ngwaith Academi'r Iaith Hebraeg ar adfywio'r Hebraeg fel iaith bob dydd. Mae fy mhedwar plentyn i gyd yn siaradwyr Cymraeg rhugl ac roedd yn dda clywed sut mae polisïau sy'n cael eu defnyddio yno yn amlwg wedi amddiffyn yr iaith ac annog pobl i'w defnyddio.

Cefais fy synnu bod taith i ffin Gaza a Golan Heights wedi'i chynnwys gan fy mod wedi clywed straeon mor arswydus am yr ardal hon ac wedi gweld rhai o'r straeon newyddion torcalonnus. Yr hyn a'm trawodd oedd stoiciaeth y trigolion sy'n parhau i ddilyn eu bywydau gorau er gwaethaf hyn.

Cefais ddealltwriaeth ddefnyddiol o hanes yr ardal ond teimlais synnwyr o rwystredigaeth gwirioneddol nad oes modd dod o hyd i atebion na chyrraedd cytundebau, a sylwais ar y rhwystredigaeth hon ymhlith y dinasyddion y gwnaethom eu cyfarfod hefyd.

Fe wnaethom gyfarfod gwleidydd Llafur a oedd, ar y pryd, yn y modd ymgyrchu. Unwaith eto, fe wnaeth y tebygrwydd fy nharo - y prif feysydd pryder oedd iechyd, tai a'r math o faterion domestig sy'n peri pryder i ni.

Er gwaethaf y gwrthdaro, roedd hi'n galonogol clywed bod ffiniau'n cael eu gwthio o ran adfywio trefol ac arloesi ym maes gofal iechyd. Gwelais deimlad o falchder yn y wlad, y dinasyddion a'u holl gyflawniadau.

Roedd hon yn daith ryfeddol o ddim ond pedwar diwrnod. Rwyf wedi dysgu cymaint am yr ardal, ei hanes a'i phobl. Roedd y lletygarwch a estynnwyd gan bawb dan sylw heb ei ail. Diolch i bawb a fu ynghlwm â'r daith ac yn enwedig Darren Millar AC fel Cadeirydd y Grŵp Trawsbleidiol ar Ffydd.

Mandy Jones AC

Gogledd Cymru